# Y CYNGOR 21/10/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** J Endaf Cooke, E T Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alun Wyn Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Lasen, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Gareth Jones (Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Richard Jones (Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau) ac Eleri Parry (Arweinydd Tim Pwyllgorau)

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** Mark Polin, Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a Richard Green Prif Gwnstabl Swyddog Staff; Val Owen, Clywed

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Anwen Davies, Dylan Edwards, Alan Jones Evans, Huw Hughes, Jean Forsyth, Brian Jones, J R Jones, Richard Lloyd Jones, W Penri Jones, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Linda Morgan a Paul Thomas

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Evie Morgan Jones.

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2010 fel rhai cywir.

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â materion canlynol:-

**Cynllun Lwfansau Aelodau –** nodwyd bod gan bob aelod fuddiant personol yn yr eitem hon dan y Cod Ymddygiad, ond nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Cynghorwyd yr aelodau i ddatgan buddiant yn yr eitem, ond bod ganddynt hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

**Arolwg y Comisiwn Ffiniau –** nodwyd ei bod o'r farn nad oedd buddiant oedd yn rhagfarnu yn codi allan o'r adroddiad ar ymateb y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau, a bod gan bob aelod hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio.

(ii) Datganodd y Cynghorwyr R J Wright ac Alun Wyn Evans fuddiant personol yn yr eitem Cynllun Lwfansau Aelodau oherwydd eu bod yn gadeiryddion Pwyllgorau Ardal, ac ni chymerasant ran, na phleidleisio ar y mater.

(iii) Datganodd gweddill yr aelodau fuddiant personol yn yr eitem "Cynllun Lwfansau Aelodau". Roeddynt o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd y Cynghorydd Endaf Cooke, aelod newydd Ward Seiont i'r Cyngor, a chroesawyd, yn eu habsenoldeb, y Cynghorwyr Richard Lloyd Jones , aelod newydd Ward Diffwys a Maenofferen a Paul Thomas, aelod newydd Ward Bowydd a Rhiw, yn aelodau o'r Cyngor.

(b) Hefyd croesawyd i'r' cyfarfod Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Richard Green, Prif Gwnstabl Swyddog Staff.

(c) Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Grace Roberts, y Felinheli ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Dr Jerry Hunter, Penygroes ar ennill y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent eleni;
- Y Cyng. Evie Morgan Jones, Llywydd Sioe Meirionnydd ar lwyddiant y Sioe;
- Disgyblion Ysgolion Gwynedd a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau, a diolchwyd i'w hathrawon am eu harweiniad a'u cefnogaeth;
- Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar ennill gwobr Pencampwyr Cymuned 2010 ar gyfer ysgolion

(ch) Cyfeiriwyd at lyfryn "Cyfrifoldebau a Disgwyliadau ar gyfer Aelodau Etholedig" a ddosbarthwyd i bob aelod gyda rhaglen y Cyngor.

**8. CWESTIYNAU**

**(i) Cwestiwn gan y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Pam na ystyriwyd Swyddfa Arfon yng Nghaernarfon fel lleoliad i adran weinyddol y Gwasanaeth Cynllunio yng Ngwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Amgylchedd.**

"Diolch am y cwestiwn.

Rhoddwyd ystyriaeth lawn i Swyddfa Penrallt Arfon fel lleoliad ar gyfer gweinyddu'r Gwasanaeth Cynllunio. Cylchredwyd pecyn gwybodaeth tua dau fis yn ôl bellach, i bob aelod o'r Cyngor oedd yn egluro'n union y newidiadau gweithredol oedd yn cael eu cyflwyno yn y Gwasanaeth Cynllunio. Roedd y wybodaeth yma yn cynnwys manylder ar sut aethpwyd ati i asesu lleoliadau posib ar gyfer gweinyddu'r Gwasanaeth. Roedd Swyddfa Penrallt (Ardal Arfon) yn un o'r pum lleoliad posib aseswyd ar gyfer gweinyddu'r Gwasanaeth Cynllunio."

**(ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

"Mewn perthynas â phenderfyniad y Pwyllgor Amgylchedd yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2010 i ddileu 7 safle croesi plant i ysgolion, gan gynnwys Dyffryn Ardudwy, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ag Ysgol Dyffryn Ardudwy, yr Hebryngwr na minnau. Pam?"

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Amgylchedd.**

“Diolch am y cwestiwn.

Adolygwyd y 50 safle hebrwng sydd yng Ngwynedd trwy gyflawni’r asesiad risg personol ar gyfer hebryngwyr, asesiad risg o’r safle ac asesiad o’r cerddwyr a llif y traffig, ac fe’u gosodwyd mewn categorïau yn unol â’r canllawiau cenedlaethol.

Llythyrwyd gyda phob ysgol berthnasol i’w hysbysu bod yr asesiad yn digwydd ac roedd y swyddog oedd yn cynnal yr asesiad yn trafod y gwaith gyda hebryngwyr unigol.

Asesiad dechreuol oedd hwn, ac mae gwaith asesu pellach i’w wneud ar nifer helaeth o safleoedd. Mae ymrwymiad eisoes wedi ei wneud gan yr Adran i gynnal trafodaethau gyda’r aelod lleol cyn penderfynu yn derfynol ar ddyfodol unrhyw wasanaeth hebryngwyr a ddarparir ar hyn o bryd.”

**Cwestiwn Atodol**

“Mae diogelwch plant yn bwysicach na dim. Fedrwch chi gadarnhau nad yw hyn yn rhan o doriadau’r Cyngor?”

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Amgylchedd.**

Medraf. Nid pwrpas yr adolygiad yw gwneud arbedion, ond yn hytrach edrych ar y gwasanaeth yng nghyd-destun canllawiau cenedlaethol. Os fydd safleoedd yn cael eu dileu, yna bydd mesurau diogelwch eraill yn cael eu rhoi yn eu lle.

**9 CYFLWYNIAD**

(i) Croesawyd Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i roi cyflwyniad i’r Cyngor, a rhoddwyd amlinelliad o’i yrfa gan y Cadeirydd.

Nodwyd bod Mr Polin wedi ei apwyntio’n Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ym Medi 2009, ac y daeth i Ogledd Cymru o Heddlu Caerloyw lle bu’n Ddirprwy Brif Gwnstabl.

Ymunodd â’r heddlu yn Ninas Llundain yn 1983, cyn gadael, wedi dyrchafiad, yn 1998 i ymuno â Heddlu Gwent, gan ddod yn ddiweddarach i reoli rhanbarth Glyn Ebwy. Yna yn 1999 fe’i dyrchafwyd i reoli rhanbarth Caerffili.

Nodwyd bod ganddo MA mewn Gweinyddiaeth Busnes o’r Brifysgol Agored, ei fod wedi ymrwymo i ddysgu’r Gymraeg ac fe’i llongyfarchwyd yn wresog ar gyrraedd safon 3.

Hefyd, fe’i llongyfarchwyd ar gael ei gyflwyno gyda Medal Heddlu’r Frenhines yn ddiweddar.

(ii) Cafwyd cyflwyniad gan Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Hysbyswyd y Cyngor o’r materion a ganlyn gan gyflwyniad y Prif Gwnstabl:

- Gweledigaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r trywydd y mae’r sefydliad bellach yn ei ddilyn;
- Ardrawiad yr adolygiad gwariant cynhwysfawr a’r hyn sy’n cael ei wneud gan Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd ag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru i ymateb i'r heriau ariannol;
- Sut mae Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd wedi cydweithio er mwyn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau trosedd a sut y mae’r ddau gorff hwn yn symud ymlaen o ran y blaenoriaethau ar y cyd hyn.

Ymhelaethodd y Prif Gwnstabl ar y brif flaenoriaeth, sef codi hyder y cyhoedd, a chyfeiriodd at y blaenoriaethau pwysig eraill a geir yn y Cynllun Strategol Tair Blynedd, sef:

- darparu gwasanaeth o ansawdd;
- canolbwyntio ar leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- gwarchod pobl rhag niwed difrifol;
- bod yn wasanaeth heddlu wedi'i arwain, ei drefnu a'i gyfarparu'n dda

Dilynwyd y cyflwyniad gan sesiwn cwestiwn ac ateb, pryd nodwyd y canlynol:-

(a) Mewn perthynas â'r toriadau, mynegodd aelod bryder y bydd rhai rhanbarthau Gogledd Cymru'n cael eu diddymu, gydag effaith andwyol ar iaith a diwylliant yr ardaloedd Cymraeg. Mynegodd gonsyrn pellach y bydd llai o blismona ardaloedd gwledig, a bydd gorsafoedd yn cau.

Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl ei fod yn llawn sylweddoli bod angen diogelu'r cymunedau Cymraeg.

Eglurodd bod tri rhanbarth yn Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd, sef rhanbarth gorllewinol, canol a dwyreiniol. Er na allai gadarnhau y bydd y tri'n parhau i'r dyfodol, cyfeiriodd at y cysylltiad agos hanfodol rhwng yr heddlu a'r gymuned leol, a phwysleisiodd y byddant yn sicrhau bod y cysylltiad agos yn parhau o dan unrhyw drefn newydd.

Cyfeiriodd ymhellach at y posibilrwydd o sefydlu 6 ardal fyddai'n cyfateb i ardaloedd awdurdodau lleol, ac y byddai'n hyrwyddo cysylltiad agos gyda'r gymuned leol a chysylltiad lefel uwch.

(b) Mynegodd aelod amheuaeth ynglŷn â chywirdeb ystadegau oedd yn dangos fod ymddygiad gwrth cymdeithasol wedi gostwng yn ddiweddar. Awgrymodd nad oedd pawb yn cysylltu gyda'r heddlu oherwydd eu bod yn amharod i weithredu.

Nododd y Prif Gwnstabl ei fod yn cytuno nad oedd yn asesiad cywir o'r sefyllfa, ac nad oedd cymunedau'n hysbysu'r heddlu o rai troseddau. Ychwanegodd bod angen adnabod yn fuan, pobl fregus ac unigolion oedd yn dioddef o ymddygiad gwrth cymdeithasol yn rheolaidd, a bod angen i'r heddlu ddatblygu eu systemau TG yn hyn o beth. Nododd hefyd bod lle i'r heddlu ac awdurdodau lleol gydweithio ar y mater.

(c) Nododd aelod, bod llawer o'r farn, y dylai'r heddlu fod dan ofal Llywodraeth y Cynulliad (fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon), er mwyn sicrhau atebolrwydd lleol.

Eglurodd y Prif Gwnstabl ei fod ar ddeall nad oedd y Cynulliad yn dymuno i'r heddlu gael ei ddatganoli, oherwydd eu bod yn pryderu na fydd yr arian hefyd yn cael ei ddatganoli. Nododd ymhellach bod trefniadau ariannu gwahanol yng Nghymru a Lloegr, ac y byddai Cymru dan anfantais aruthrol.

(ch) Mewn perthynas â sylw y gallai holl awdurdodau Cymru ymuno, eglurodd y Prif Gwnstabl nad oedd Llywodraeth San Steffan yn gefnogol i ymuno heddluoedd - oherwydd consyrn y byddant yn colli cefnogaeth y cyhoedd. Hefyd byddai'n gostus, ac roedd arian yn brin. Ymhellach nododd bod Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio agos gyda heddluoedd Gogledd Orllewin Lloegr, ac na welai fanteision i ymuno heddluoedd Cymru.

(d) Gofynnodd aelod a oedd yr heddlu'n bwriadu cynnydd sylweddol yn y presept, er mwyn gwneud yn iawn am y toriadau, a cheisiodd farn y Prif Gwnstabl ynglŷn á'r ffaith bod yr

heddlu'n cael ymddeol yn 50 oed, a bod rhaid ariannu'r pensiwn am 15 flynedd yn hwy na gweithwyr eraill.

Eglurodd mai mater i Awdurdod yr Heddlu oedd gosod y presept. Fodd bynnag, roedd y presept yn ddibynnol ar yr adolygiad gwariant, bod dau ddewis mewn gwirioneddol, sef torri ar wariant neu gynyddu'r presept, a bydd yn rhaid cloriannu'r sefyllfa'n ofalus.

Ymhellach, eglurodd mai'r Llywodraeth ganolog oedd yn talu pensiynau rhai oedd yn ymddeol yn gynnar, ac nad oedd yn effeithio ar gyllid yr heddlu. Hefyd nododd bod cyfraniadau pensiwn yr heddlu gryn dipyn yn uwch na gweithwyr eraill y sector gyhoeddus.

(dd) Mynegodd aelod bryder bod y defnydd o gyffuriau ar gynnydd drwy'r sir, a'i fod yn awyddus i aelodau a'r heddlu gydweithio, ac yn benodol i aelodau rannu gwybodaeth gyda'r Heddlu.

Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl bod taclo problem cyffuriau yn un o brif flaenoriaethau'r heddlu, a bod y sefydliad yn llwyddiannus iawn i daclo troseddau difrifol yn ymwneud a chyffuriau. Nododd ei fod yn barod iawn i dderbyn gwybodaeth gyfrinachol gan aelodau. Fodd bynnag, roedd yr heddlu'n annog y cyhoedd i gyfleu gwybodaeth yn uniongyrchol i'r heddlu, ond nad oedd hynny'n digwydd bob tro. Cyfeiriodd at waith da gydag ysgolion a phobl ifanc mewn perthynas ag atal cyffuriau.

Addawodd y byddai swyddog yn cysylltu gyda'r aelod i gael y wybodaeth ynglŷn â'r achos penodol yn ei ward.

Diolchwyd i'r Prif Swyddog am ei gyflwyniad, ac am ei barodrwydd i ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau. Dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd ac i waith Heddlu Gogledd Cymru.

**10 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, yn dilyn isetholiadau yn wardiau Diffwys a Maenofferen, Seiont a Bowydd a Rhiw.

(ii) Adroddwyd gan Arweinydd y Cyngor bod rhaid sicrhau bod cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau ar y Cyngor, bod y Grŵp Annibynnol yn colli 2 sedd i Grŵp Plaid Cymru yn dilyn yr isetholiadau, a bod angen cytundeb ynglŷn â dyraniad y seddau.

Ychwanegwyd bod camgymeriad yn Atodiad "A" oedd yn rhestru'r seddau i bob Grŵp Gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor, a bod taflen ddiwygiedig wedi ei dosbarthu oedd yn nodi mai 6 sedd oedd gan Grŵp Plaid Cymru ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol (nid 5 fel y nodwyd), ac nad oedd gan Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol sedd ar y pwyllgor hwn (nid 1 fel y nodwyd).

Adroddwyd ymhellach bod y Grŵp Busnes wedi trafod y dyraniad a bod mwyafrif yr aelodau'n gytûn bod angen cyfnod o sefydlogrwydd ac y dylid cyflawni cyn lleied o newid â phosibl i ddyraniad y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dyrniad seddau.

(i) Mynegodd Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd anfodlonrwydd gyda'r dyraniad presennol. Roedd o'r farn nad oedd y dyraniad yn deg, a bod Grŵp Llais Gwynedd ar eu colled. Yn dilyn yr isetholiadau diweddar, eglurodd bod gan Grŵp Llais Gwynedd 13 aelod ar y Cyngor a'r Grŵp Annibynnol 17 aelod. Fodd bynnag, 2 sedd yn unig oedd gan Grŵp Llais Gwynedd

ar Fwrdd y Cyngor, tra bod gan y Grŵp Annibynnol 4 aelod ar y Bwrdd, a bod yr annhegwch yn bodoli ers dechrau'r Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod Grŵp Llais Gwynedd yn cael 3 aelod ar y Bwrdd, ac yn colli sedd ar bwyllgor arall, a bod y Grŵp Annibynnol yn colli sedd ar y Bwrdd ac yn ennill sedd ar bwyllgor arall.

Pwysodd yr eilydd am gefnogaeth i ganiatáu 3 sedd i Grŵp Llais Gwynedd ar Fwrdd y Cyngor – er mwyn tegwch, Ychwanegodd ei fod wedi siarad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'u bod o'r farn bod achos dros ail-ystyried y sefyllfa. Yn ogystal, eglurodd bod Adain Ddemocratiaeth y Cynulliad o'r farn y dylid cyfeirio'r mater i'w sylw os nad oedd y Cyngor yn dod i gytundeb ar y mater.

Nododd yr aelod ymhellach bod angen adolygu'r cyfrifoldebau ar y Bwrdd er mwyn rhannu'r Uwch Bortffolios yn decach ymysg y Grwpiau Gwleidyddol

Mewn ymateb eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod rhaid glynu wrth y rheolau ar gyfer dyrannu seddau, sef :-

- ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;
- rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol mwyafrifol ar y Cyngor (nid oedd hyn yn berthnasol gan nad oedd grŵp mwyafrifol ar Gyngor Gwynedd);
- rhaid i gyfanswm y seddi gael eu rhannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol (mor agos â phosibl i'r ffigwr crwn agosaf);
- bod rhaid i seddau bob pwyllgor gael eu dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol (cyn belled ag oedd yn ymarferol bosibl)

Pwysleisiodd y Pennaeth bod cyfanswm y seddau, ynghyd â dyraniad y seddau ar bob pwyllgor yn yr atodiad yn cyd-fynd â'r rheolau, ac yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor (cyn belled ag oedd yn ymarferol bosibl)

Fodd bynnag, eglurodd bod gwahanol ddewisiadau ar gael, a gyda chytundeb y Cyngor, byddai modd newid y rhaniad ar Fwrdd y Cyngor i roi 3 sedd i Grŵp Llais Gwynedd a 3 sedd i'r Grŵp Annibynnol (yn hytrach na 2 sedd i Grŵp Llais Gwynedd a 4 sedd i'r Grŵp Annibynnol), ac y byddai modd gwneud newid cyfatebol i ddyraniad seddau'r Prif Bwyllgor Craffu. Pwysleisiodd bod y ddau ddyraniad a amlinellwyd yn gyfreithlon ac yn gyfansoddiadol.

(v) Cyfeiriodd aelod arall at Gyfansoddiad y Cyngor oedd yn nodi "y bydd y Bwrdd yn cynnwys 15 o gynghorwyr a benodwyd i'r Bwrdd gan y Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol" yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Nododd bod cyfreithiwr allanol o'r farn y byddai gweithredu'n wanhaol yn anghyfansoddiadol.

Pwysleisiodd y Pennaeth bod Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gwneir y dyraniad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'i bod yn hyderus bod y dyraniad yn yr Atodiad ynghyd, â'r dyraniad yn y gwelliant, yn unol â'r ddeddfwriaeth ac yn gyfansoddiadol.

Mewn perthynas â chyfeiriad yr aelod at ddyfyniad yng nghofnodion Cyngor Blynyddol Mai 2008 sef "*er bod y dyraniad yn unol ag ysbryd y ddeddfwriaeth, oherwydd nad oedd y trefniadau'n adlewyrchu'n fathemategol gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, eglurodd y Swyddog Monitro, os oedd y Cyngor am dderbyn y dyraniad bod rhaid cael penderfyniad o blaid y trefniadau heb neb yn pleidleisio yn erbyn - er mwyn osgoi unrhyw her o'r tu allan"* pwysleisiodd y Pennaeth bod y dyfyniad yn ymwneud â seddau ar gyrff allanol oedd yn cael eu dyrannu yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Fodd bynnag, eglurodd bod modd dod i gytundeb tebyg ar gyfer dyraniad

y seddau ar bwyllgorau - cyn belled a bod pob aelod yn gytûn a neb yn pleidleisio yn ei erbyn.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod dyraniad y seddau yn fater cymhleth, gydag amrywiaeth eang iawn iawn o gyfuniadau mathemategol posibl, ac nad oedd modd taro cydbwysedd perffaith.

Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar welliant i ddyrannu 3 sedd i Lais Gwynedd a 3 sedd i'r Grŵp Annibynnol ar Fwrdd y Cyngor a 3 sedd i Lais Gwynedd a 3 sedd i'r Grŵp Annibynnol ar y Prif Bwyllgor Craffu"

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi colli.

Nododd aelod y dylid ceisio gwell eglurder ynglŷn â'r mater oddi wrth y gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Roedd aelod arall o'r farn eu bod wedi derbyn cyngor cwbl glir a diamwys gan y Swyddog Monitro, ac na ddylid ceisio barn gyfreithiol bellach.

Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar welliant pellach i gyfeirio'r mater, er eglurder at y gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi colli.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ar gyfer dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor, ac yna ar ddyraniad cadeiryddiaethau, ac is-gadeiryddiaethau pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **36** |
| **Annibynnol** | **17** |
| **Llais Gwynedd** | **13** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **5** |
| **Llafur** | **4** |
| **Cyfanswm** | **75** |

**(ii) mabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn y tabl isod**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Llafur** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Prif Bwyllgor Craffu | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Llafur** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 8 | 3 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Cynllunio | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **90** | **43** | **33** | **12** | **10** | **= 188** |

**(iii) mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau yn unol â'r tabl isod:-**

| | Pwyllgor | Cadeirydd | Is-gadeirydd |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Prif Bwyllgor Craffu | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Annibynnol** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc | **Annibynnol** | **Llafur** |
| 4 | Amgylchedd | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Plaid Cymru** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Gofal | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 6 | Datblygu | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** |
| 8 | Cynllunio | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 9 | Trwyddedu Canolog | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 10 | Pensiynau | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| 11 | Adnoddau Dynol | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 12 | Apelau Cyflogaeth | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 13 | Ardal Arfon | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 14 | Ardal Dwyfor | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Meirionnydd | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |

## 11 AELODAU CYFETHOLEDIG AR Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar newid cynrychiolaeth aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu Gofal.

Rhoddwyd amlinelliad o'r adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal.

Adroddwyd fod cynrychiolwyr o'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd wedi eu penodi'n aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn sgil swyddogaethau newydd y pwyllgor i ymdrin â throsedd ac anhrefn; y byddai'n deg cynnig sedd gyfetholedig i'r Gwasanaeth Prawf gan eu bod bellach yn bartner statudol, ac nad oedd cyfiawnhad mwyach dros roi seddi cyfetholedig i gynrychiolwyr Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd, gan fod y stoc tai wedi trosglwyddo.

Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Gofal wedi rhoi sylw i'r mater ac wedi argymell i'r Cyngor y dylid newid aelodaeth gyfetholedig y pwyllgor i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Nododd y Cynghorydd Eryl Jones Williams ei fod wedi atal ei bleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD newid cynrychiolaeth aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu Gofal drwy ddiddymu aelodaeth y ddau gynrychiolydd o Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd a chynnwys un aelod o'r Gwasanaeth Prawf yn eu lle**

## 12 CYNLLUN LWFANSAU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar ganlyniad y cais i dalu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd Pwyllgor Ardal

Rhoddwyd amlinelliad o'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Adroddwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf, wedi penderfynu cyflwyno cais i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gael talu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd Pwyllgor Ardal.

Fodd bynnag, eglurwyd bod rôl Cadeirydd Pwyllgor Ardal wedi newid ers sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio newydd, a bod y llwyth gwaith gryn dipyn yn ysgafnach. Awgrymwyd y dylid derbyn yr hawl i dalu lwfans i Gadeirydd Pwyllgor Ardal, ond pennu'r lwfans ar raddfa pwyllgorau oedd â llwyth gwaith cyfatebol, sef y Pwyllgorau Archwilio a Thrwyddedu, yn hytrach na Chadeirydd Pwyllgor Craffu.

**PENDERFYNWYD diwygio'r Cynllun Lwfansau Aelodau er mwyn talu lwfans o £2,272 i Gadeirydd Pwyllgorau Ardal a chyflwyno bid ariannol i'w ystyried yng nghyd-destun gweddill cyllideb y Cyngor o 2011 ymlaen.**

## 13 PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio er mwyn cael cytundeb i ddarparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Môn.

Rhoddwyd amlinelliad o'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Amgylchedd

Adroddwyd bod Bwrdd y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo darparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd ar gyfer Cyngor Gwynedd (ddim yn cynnwys Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) a Chyngor Sir Ynys Môn, a bod angen i'r Cyngor gytuno manylion o ran cyfrifoldebau, trefniadau cyfansoddiadol, gweithredol a gweinyddol ar gyfer y Pwyllgor.

Mewn ymateb i sylwadau a phryderon aelodau nodwyd y canlynol:-

- y bydd darparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ddau awdurdod ac yn fwy cost effeithiol i'r ddau awdurdod na chynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol yr un;
- bod y Cytundeb yn parhau am gyfnod o 6 blynedd sef am y cyfnod o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a chyfnod o fonitro ac adolygu;
- y byddai Cyngor Gwynedd yn croesawu cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn ogystal, ond nad oedd yr amserlen yn caniatáu hynny gan fod y Parc ymhell o flaen Cyngor Gwynedd gyda'i Gynllun Datblygu Lleol;
- bod y dogfennau oedd gerbron yn canolbwyntio ar ffurfio'r polisi oedd yn rhoi cyd-destun ar gyfer y ddau awdurdod ac na fyddai'r cydbwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau unigol

**PENDERFYNWYD**

**a) Cymeradwyo'r cytundeb yn Atodiad A ar gyfer darparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd;**

**b) Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor yn ddarostyngedig i sicrhau cytundeb gyda Chyngor Sir Ynys Môn.**

**c) Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, wneud man ddiwygiadau i'r cytundeb yn Atodiad A os fydd angen.**

## 14 RHYBUDD I GYCHWYN CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adran Rheoleiddio er mwyn cwblhau'r gwaith yn ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Unedol (CDU), a gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru baratoi deddfwriaeth eilaidd i roi'r hawl i ddechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Rhoddwyd amlinelliad o'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Amgylchedd.

Adroddwyd bod y gwaith yn gysylltiedig â pharatoi'r CDU wedi dod i ben a bod angen rhoi gwybod hynny i'r Cynulliad a gofyn i'r Cynulliad baratoi Rhybudd Dechrau Lleol ar gyfer paratoi'r CDLl. Nodwyd na all y Cyngor ymgymryd ag unrhyw waith ffurfiol mewn perthynas â pharatoi CDLl, hyd nes bydd y Rhybudd yn ei le.

**PENDERFYNWYD**

a) **Rhoi hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod y Cyngor wedi gorffen defnyddio ei bwerau i baratoi Cynllun CDU o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a'i ddiwygiadau),**
b) **Rhoi hawl i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd (y Rhybudd Lleol) i awdurdodi dechrau'n ffurfiol ar baratoi'r CDLl.**

**15 SAFON GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Safon Gwynedd a threfn leol ar gyfer datrys cwynion

Rhoddwyd amlinelliad o'r adroddiad gan aelod oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Safonau, a nodwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi argymell i'r Cyngor fabwysiadu "Safon Gwynedd."

Eglurwyd mai diben y Safon oedd sefydlu pa ymddygiad oedd yn dderbyniol ac yn annerbyniol rhwng aelodau a'i gilydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu "Safon Gwynedd ynghyd â'r drefn leol ar gyfer datrys cwynion**

**16 RHAGLEN STRATEGOL "TUAG AT 2025" – DYFODOL ADDYSG A HYFFORDDIANT I BLANT A PHOBL IFANC YNG NGWYNEDD**

(i) Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Raglen Strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd hyd at 2025.

(ii) Rhoddwyd amlinelliad o gynnwys yr adroddiad gan Arweinydd Addysg.

Adroddwyd bod y ddogfen yn gosod cyfeiriad strategol hirdymor ar gyfer datblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd, a'i fod yn strategaeth ar gyfer ymgeisio am arian cyfalaf o dan Raglen "Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain"

Ychwanegwyd yr ymgynghorwyd gyda 200 o blant a phobl ifanc y sir, a rhoddwyd amlinelliad byr o'u barn a'u dyheadau gan Val Owen ar ran "Clywed".

(iii) Ar gais aelod oedd yn awyddus i hyrwyddo cymunedau Cymraeg, cytunwyd i ddiwygio egwyddor (vi) fel a ganlyn:- "Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn Cymunedau"

(iv) Cyfeiriodd aelod at adroddiad ardrawiad iaith ardal Penllyn oedd yn dangos dirywiad difrifol yn y Gymraeg yn ysgolion tref y Bala, a gofynnodd beth oedd cynlluniau'r Cyngor ar gyfer adfer y sefyllfa.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod yr asesiad ieithyddol yn derbyn sylw, a bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, i roi cynllun gweithredu yn le, ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Y Berwyn. Nododd y bydd datblygu'r campws Gydol Oes yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a bod y grŵp o ddefnyddwyr a sefydlwyd yn y dalgylch, yn edrych ar sut y gall asiantaethau gydweithio, er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg

- nid yn unig fel iaith yr ysgol ond fel cyfrwng cymdeithasol yn ogystal. Yn unol â chais yr aelod, addawodd y Cyfarwyddwr y byddai'n cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar y mater.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Rhaglen Strategol "Tuag at 2025", yn amodol ar ddiwygio egwyddor rhif (vi) i "Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn Cymunedau"**

## 17 CYRHAEDDIAD Y CYNGOR 2009/10

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar gyrhaeddiad y Cyngor yn 2009/2010.

Rhoddwyd amlinelliad o gynnwys yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol adrodd yn flynyddol ar berfformiad y Cyngor, a bod yr adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad y Cyngor ar holl welliannau a dangosyddion y Cynllun Tair Blynedd ar ddiwedd 2009/10.

Eglurwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu wedi gofyn am roddi sylw pellach i sicrhau bod y naratif yn y ddogfen yn adlewyrchu'n well gwir sefyllfa perfformiad y Cyngor, a bod y ddogfen oedd gerbron wedi ei ddiwygio yn unol â hynny.

Nododd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu ei fod o'r farn bod tueddiad i'r Cyngor fod yn hunan foddhaol, a bod angen bod yn fwy cytbwys wrth adrodd ar berfformiad. Eglurodd bod y Cyngor wedi bod yn aflwyddiannus mewn sawl maes, a bod y ddogfen yn canolbwyntio'n ormodol ar lwyddiannau.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor wedi cyflawni 80% o'r gwelliannau ar gyfer 2009/2010, bod y perfformiad i'w ganmol yn yr hinsawdd ariannol bresennol, a bod bwriad rhoddi sylw trylwyr i'r methiannau.

Ar gais yr aelod cytunwyd i ddiwygio'r pennawd i "Adroddiad ar lwyddiannau a methiannau'r Cyngor yn 2009/10"

**PENDERFYNWYD**
**(i) Cymeradwyo a mabwysiadu'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2009/10;**
**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Adran Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r adroddiad.**

## 18 ADRODDIAD DRAFFT Y COMISIWN FFINIAU AR AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIR GWYNEDD.

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar adroddiad drafft y Comisiwn Ffiniau o drefniadau etholiadol Sir Gwynedd a chymhariaeth o sut oedd cynigion drafft y Comisiwn yn cyd-fynd gydag egwyddorion a gynigiwyd gan y Cyngor yn eu sylwadau cychwynnol, er mwyn ystyried ymateb y Cyngor i'r adroddiad drafft.

Rhoddwyd amlinelliad o gynnwys yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Adroddwyd bod angen ymateb i adroddiad y Comisiwn Ffiniau ar drefniadau etholiadol y Cyngor erbyn 23 Tachwedd. Eglurwyd bod y Cyngor wedi anfon sylwadau cychwynnol at y Comisiwn, ac er bod tystiolaeth bod y Comisiwn wedi talu sylw i sylwadau'r Cyngor yn eu

cynigion drafft, pwysleisiwyd nad oedd nifer o'r cynigion yn gydnaws â'r egwyddorion yn argymhellion y Cyngor.

Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ymateb i'r cynigion ar sail yr egwyddorion, yn hytrach nag i gynigion unigol, ac atgoffwyd yr aelod bod gan aelodau unigol a grwpiau gwleidyddol hawl i ymateb mewn perthynas â wardiau penodol.

Cadarnhawyd cefnogaeth i'r egwyddorion blaenorol mewn perthynas â'r angen i amrywio'r gymhareb aelod/etholwr yn ôl y gofynion ardal; gostwng nifer y rhanbarthau etholiadol sy'n cynnwys mwy na 2 gymuned; peidio cynyddu nifer y rhanbarthau aml-aelod; ystyried y boblogaeth sydd heb gofrestru.

Cytunwyd i ddiwygio'r egwyddor berthnasol i ddarllen "Dylid cadw at yr ardaloedd gweinyddol cyfredol Arfon, Dwyfor, Meirionnydd oni bai fod achos teilwng dros wyro oddi wrtho", ac i ychwanegu "threthdalwyr y sir" a "myfyrwyr" i'r egwyddor y dylid cymryd ystyriaeth o'r boblogaeth oedd heb gofrestrau mewn rhai mannau o'r sir .

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r sylwadau, gyda'r man newidiadau i'w hanfon i'r Comisiwn Ffiniau**

## 19 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Huw Edwards o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

"*Yn dilyn sylw yn y wasg a phryderon yn lleol ynglŷn â dyfodol Ward Alaw a gwasanaethau eraill; hoffwn ymestyn gwahoddiad i aelod o Fwrdd Betsi Cadwaladr i ddod i roi adroddiad llawn ger bron y Cyngor am gynlluniau'r Bwrdd i'r dyfodol ac effaith unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth iechyd yn lleol ac effaith hyn ar gleifion yng Ngwynedd; hefyd i gyflwyno gwybodaeth ar sut y bydd y Bwrdd yn cyfathrebu ac ymgynghori ynglŷn ag unrhyw adolygiadau neu newidiadau gyda'r cyhoedd yn y Sir."*

Eglurodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal bod Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gofal ddiwedd Medi, a'i fod wedi derbyn cadarnhad diweddar y bydd hefyd yn mynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 7 Rhagfyr, 2010. Awgrymodd yn gryf y byddai'n fwy priodol i wahodd holl aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn hytrach na gwahodd y Prif Weithredwr i'r Cyngor llawn.

Cynigiwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd ar welliant *"Bod pob aelod o'r Cyngor yn cael gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Rhagfyr ar gyfer yr eitem pan fydd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr yn bresennol yn y cyfarfod."*

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi ennill a'i fod yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol. Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

Gofynnodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal i aelodau nad oeddynt yn aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gofal ei hysbysu ymlaen llaw ynglŷn â chwestiynau yr oeddynt yn dymuno'u gofyn i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r rhybudd o gynnig canlynol:**
***"Bod pob aelod o'r Cyngor yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Rhagfyr ar gyfer yr eitem pan fydd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr yn bresennol yn y cyfarfod."***

**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i weithredu ar y cynnig**

## 20 ADRODD YN ÔL AR RYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth ymateb y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru i lythyr y Cyngor yn mynegi pryder ynglŷn â bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu Cymorth (Y Gronfa Plant a Theuluoedd) yn ei ffurf bresennol, er mwyn sefydlu Cronfa Strategol i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Tlodi Plant Cenedlaethol newydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.00 p.m.